



3ydd o Ionawr 2024

At holl gydweithiwr GTADC ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Holl bartneriaid a chyfranddalwyr y Gwasanaeth
Fenella Morris KC

Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais adolygiad annibynnol o'n diwylliant, ein prosesau disgyblu a'n hachosion disgyblu hanesyddol. Er mwyn sicrhau annibyniaeth a manwl gywirdeb, casglwyd panel penodi annibynnol a phenodwyd Fenella Morris KC i ymgymryd â'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol.

Ers ei phenodiad, mae Fenella Morris KC a'i thîm wedi bod yn ddiwyd, yn ddi-duedd ac yn drylwyr wrth ymgymryd â'r Adolygiad. Fe wnaethant gynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb a chyfweiliadau rhithiol un-i-un, trafodaethau grwpiau ffocws mewn lleoliadau ar draws y Gwasanaeth. Casglwyd gwybodaeth ychwanegol wrth ddefnyddio holiadur ar-lein ac ymchwil bwrdd gwaith.

Roedd yn bwysig y cafodd unrhyw un a oedd yn dymuno cyfrannu gyfle i'w llais gael ei glywed gan y Tîm Adolygiad Diwylliant Annibynnol. Rwy'n ddiolchgar i'r cynweithwyr a'r gweithwyr presennol ac eraill a gyfrannodd at yr Adolygiad. Rwy'n sylweddoli, i'r rhai a gafodd brofiadau negyddol gan y Gwasanaeth, nad oedd hwn yn rhydd a dwi'n eu canmol am eu dewrder a'u gonestrwydd wrth gamu ymlaen i rannu eu profiadau.

I'r rhai a gafodd brofiadau negyddol gan y Gwasanaeth, mae'n ddrwg calon gennyf. Does dim lle i ymddygiad amhriodol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Cyhoeddir yr Adolygiad Annibynnol i Ddiwylliant GTADC heddiw, fel y cytunwyd gan y panel penodi annibynnol panel ac yn unol â'r amodau gorchwyl a osodwyd gan Fenella Morris KC. Hoffwn ddiolch i Fenella Morris KC a'i thîm am eu mewnwleidiad annibynnol i'n Gwasanaeth.

Fel Prif Swyddog Tân, rwy'n derbyn yr argymhellion a wnaed o fewn yr adroddiad yn llwyr. Yn yr wythnosau sy'n dod, bydd y Gwasanaeth yn myfyrio ar fanylion yr adroddiad ac yn penderfynu pa gamau sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr adroddiad hwn, yr argymhellion a'r cynllun gweithredu canlyniadol yn grymuso'r holl Wasanaeth i ddatblygu ymhellach diwylliant cadarnhaol er lles yr holl weithwyr a'r cymunedau rydym yn gwasanaethu.

Mae yna lawer gall y Gwasanaeth fod yn falch ohono, yn enwedig sut rydym yn diogelu cymunedau De Cymru pan fydd eu hangen ar ei fwyaf. Er, mae yna lawer gormod o esiamplau yn yr adroddiad nad sy'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar y Gwasanaeth a bydd hyn yn bryder i'r staff sy'n cynnal, yn byw ac yn anadlu'n gwerthoedd bob un dydd.

Cefais y fraint o wasanaethu fel Prif Swyddog Tân am dros ddeuddeg mlynedd, lle rhoddwyd yr ymddiriedaeth ynof i arwain ein Gwasanaeth drwy lawer o heriau a newidiadau megis llymder, pandemig iechyd cyhoeddus bydeang a digwyddiadau brys sylweddol fuodd yn brawf i ni. Ar bob adeg fe wnes i arwain gyda pharch cydfuddiannol, a hynny'n gynhwysol ac â balchder ac angerdd.

Nawr mae'n amser am newid o ran arweinyddiaeth a ddoe, fe wnes i hysbysu'r Awdurdod Tân o'm bwriad i ymddeol. Ni fydd proresi benodi'r Prif Swyddog Tân nesaf yn tynnu oddi wrth fy ngwaith i fynd i'r afael â'r argymhellion na chwaith yn eu hoedi. Bydd gan y Prif Swyddog Tân nesaf gyfle i osod ei weledigaeth ef neu hi ar gyfer y Gwasanaeth ynghyd â chynllun hirdymor i fynd i'r afael â'r argymhellion a chanfyddiadau'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol.

Rwy'n hyderus, drwy law ymroddiad ar y cyd ar draws y Gwasanaeth ac â chymorth gan bartneriaid, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymgodi â diwylliant mwy cadarnhaol a chynhwysol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Huw Jakeway'.

Huw Jakeway QFSM
Y Prif Swyddog Tân